



CYNGOR ARBENNIG

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD DRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD IAU, 14 HYDREF 2021 AM 5.00PM

YN BRESENNOL:

Y Cyngorydd C. Andrews - Maer

Cynghorwyr:

M. Adams, E.M. Aldworth, A. Angel, C. Bezzina, A. Bishop, A. Collis, S. Cook, C. Cuss, D.T. Davies, N. Dix, C. Elsbury, K. Etheridge, M. Evans, C. Forehead, E. Forehead, J.E. Fussell, A. Gair, N. George, C. Gordon, L. Harding, A. Higgs, A. Hussey, G. Kirby, P. Leonard, C. Mann, P. Marsden, B. Miles, G. Oliver, B. Owen, D.W.R. Preece, J. Pritchard, J. Roberts, R. Saralis, M.E. Sargent, G. Simmonds, E. Stenner, C. Thomas, A. Whitcombe, R. Whiting, L. Whittle, T.J. Williams, W. Williams, B. Zaplatynski

Ynghyd â:

D. Street (Prif Weithredwr Dros Dro), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Amgylchedd), G. Jenkins (Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro), S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a Swyddog A151), A. Southcombe (Rheolwr Cyllid, Cyllid Corfforaethol), N. Roberts (Prif Gyfrifydd y Grŵp), E. Sullivan (Uwch-swyddog Gwasanaethau Pwyllgor), R. Barrett (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor), M. Harris (Swyddog Cymorth Gwasanaethau Pwyllgor)

Hefyd yn Bresennol:-

A. Veale (Archwilio Cymru)

CYHOEDDIAD Y MAER

Croesawodd y Maer yr Aelodau i'r cyfarfod a hysbysodd y Cyngor fod newid wedi bod i drefn y cyfarfod a bod Rhif yr Eitem ar yr Agenda 4 (Diweddariad i Ganllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a Newidiadau Canlyniadol i Gyd-bwyllgor Rhanbarth Prifddinas Caerdydd) wedi ei ohirio hyd nes cyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol, ac na fyddai'n cael ei drafod heno.

RECORDIO, FFILMIO A THREFNIADAU PLEIDLEISIO

Atgoffodd y Prif Weithredwr Dros Dro y rhai a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio ond na fyddai'n cael ei ffrydio'n fyw. Serch hynny, byddai recordiad ar gael ar ôl y cyfarfod ar wefan y Cyngor – Cliciwch Yma i'w Weld. Esboniodd y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy Microsoft Forms.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan J. Bevan, P.J. Bevan, D. Cushing, W. David, M. Davies, K. Dawson, A. Farina-Childs, J. Gale (Dirprwy Faer), R. Gough, D. Hardacre, D. Harse, D. Havard, M. James, V. James, L. Jeremiah, G. Johnston, B. Jones, S. Kent, A. Leonard, S. Morgan, T. Parry, L. Phipps, Mrs D. Price, J. Ridgewell, J. Scriven, J. Simmonds, S. Skivens a J. Taylor, ynghyd â Mrs C. Harrhy (Prif Weithredwr).

2. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

3. DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER 2020/21

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn cyflwyno 'Adroddiad Archwilio Cyfrifon' Archwilio Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21, a ystyriwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 12 Hydref 2021. Roedd yr adroddiad yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Cyfrifon Ariannol a Archwiliwyd 2020/21, er mwyn sicrhau y gellid eu cyflwyno i'r Archwilydd Cyffredinol yn unol â therfyn amser Llywodraeth Cymru, sef 30 Tachwedd 2021.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet dros Berfformiad, yr Economi a Menter, ac esboniodd fod y Cyfrifon Ariannol yn gymhleth iawn, a bod y fformat a'r gofynion datgelu wedi'u pennu gan wahanol safonau cyfrifyddu, codau ymarfer a gofynion deddfwriaethol. Hysbyswyd yr Aelodau na all y Cyngor newid unrhyw beth sydd wedi'i nodi yn y Cyfrifon Ariannol a Archwiliwyd mewn gwirionedd, gan y byddai'n rhaid i Archwilio Cymru gymeradwyo unrhyw newid. Y terfyn amser statudol ar gyfer paratoi cyfrifon drafft 2020-21 oedd 31 Mai 2021, a'r terfyn amser statudol ar gyfer cael cymeradwyaeth gan yr Archwilydd Cyffredinol oedd 31 Gorffennaf 2021. Fodd bynnag, oherwydd effaith barhaus pandemig COVID-19, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at bob Cyngor i'w hysbysu y gallai gyflwyno ei gyfrifon drafft erbyn 31 Awst 2021 a threfnu iddynt gael eu harchwilio a'u hardystio erbyn 30 Tachwedd 2021.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod llunio'r Cyfrifon Ariannol a'r archwiliad dilynol wedi bod yn heriol unwaith eto i staff cyllid ac i'r tîm archwilio yn Archwilio Cymru, gan fod staff yn gweithio o bell. Fodd bynnag, roedd yn braf nodi bwriad yr Archwilydd Cyffredinol i gyhoeddi barn archwilio ddiagram ar Gyfrifon Ariannol 2020-21. Cofnododd yr Aelod Cabinet ei diolch i Dîm Cyllid y Cyngor ac i'r tîm archwilio yn Archwilio Cymru am eu gwaith caled a'u proffesiynoldeb drwy gydol y broses archwilio.

Cyflwynwyd Adroddiad Archwilio Cyfrifon Archwilio Cymru a'r Cyfrifon Ariannol a Archwiliwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 12 Hydref 2021, ac yn dilyn ystyriaeth a nifer o gwestiynau gan Aelodau, cymeradwyodd y Pwyllgor yn unfrydol yr argymhellid i'r Cyngor y dylid derbyn y Cyfrifon Ariannol a Archwiliwyd 2020-21.

Mae atodiad 3 i adroddiad yr Archwilydd yn rhoi manylion camddatganiadau a nodwyd yn ystod y broses archwilio, sydd wedi'u cywiro ers hynny gan reolwyr a'u hymgorffori yn y Cyfrifon Ariannol a Archwiliwyd. Mae'n bwysig pwysleisio na chafodd y cywiriadau hyn unrhyw effaith ar Alldro Refeniw Dros Dro 2020/21 a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 13 Gorffennaf 2021, nac ychwaith ar falansau arian parod na'r gronfa ddefnyddiadwy a ddaliwyd gan y Cyngor ar 31 Mawrth 2021.

Nodwyd dau gamddatganiad yn adroddiad yr Archwilydd nad oeddent yn berthnasol yn unigol nac yn gyfunol. Roedd y cyntaf o'r rhain yn cyfeirio at falans dyledwyr o £1.5m lle

mae angen gwneud rhagor o waith i gadarnhau natur y ddyled a'r driniaeth gyfrifyddu briodol. Nododd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yr amlygwyd y camddatganiad hwn yn archwiliad cyfrifon 2019/20 hefyd, a gofynnwyd pam nad oedd y mater wedi'i ddatrys. Atgoffodd y swyddogion yr Aelodau fod Adroddiad Archwilio Cyfrifon 2019/20 yn cynnwys 20 o argymhellion a dderbyniwyd gan y rheolwyr a bod y rhan fwyaf o'r rhain bellach wedi cael sylw. Yn ogystal â hyn, bu'n rhaid i staff cyllid ddelio â blaenoriaethau eraill yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21, gan gynnwys prosesu gwerth mwy na £55m o grantiau busnes COVID-19, ynghyd â delio â chynnydd sylweddol mewn cyllid grant penodol arall a oedd yn gysylltiedig yn â'r pandemig. Fodd bynnag, cadarnhaodd y Swyddogion y bydd y gwaith o fynd i'r afael â'r camddatganiad o £1.5m nas cywirwyd yn cael ei gwblhau yn ystod y misoedd nesaf ac y byddai diweddariad yn cael ei roi i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 25 Ionawr 2022.

Roedd y camddatganiad arall nas cywirwyd a nodwyd yn adroddiad yr Archwilydd yn ymwneud â gwahaniaethau ariannol rhwng adroddiadau prisio a chofnodion cyfrifyddu ar gyfer Parc Arloesi Tredomen a Pharc Busnes Tredomen. Cafodd hyn ei nodi'n hwyr yn y broses archwilio ac felly bydd hefyd yn cael ei addasu ym mlwyddyn ariannol 2021/22.

Gofynnwyd i'r Cyngor nodi, ar ôl i'r Archwilydd Cyffredinol ardystio'r cyfrifon, y bydd Archwilio Cymru yn cyhoeddi 'Atodiad i'r Adroddiad Archwilio Cyfrifon', a fydd yn nodi prif ganfyddiadau'r archwiliad ynghyd ag argymhellion ac ymatebion y rheolwyr. Caiff yr atodiad i'r adroddiad hwn hefyd ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2022.

Cofnododd y Cyngor ei ddiolch a'i werthfawrogiad i Mr Steve Harris a'r holl staff a fu ynghlwm â'r gwaith o baratoi'r Cyfrifon Ariannol ar gyfer 2020/21 a chydnabuwyd, o ganlyniad i waith caled yr holl staff dan sylw, y byddai'r Cyfrifon Ariannol yn cael eu cymeradwyo chwe wythnos cyn terfyn amser Llywodraeth Cymru.

Croesawyd Mr Anthony Veale o Archwilio Cymru i'r cyfarfod, a oedd yn bresennol er mwyn ateb cwestiynau'r Aelodau yn ymwneud ag Adroddiad yr Archwilydd.

Trafododd y Cyngor yr adroddiad a gofynnodd un Aelod a oedd Archwilio Cymru yn gyfforddus â'r camddatganiadau a nodwyd yn Adroddiad yr Archwilydd. Cadarnhaodd Mr Veale fod Archwilio Cymru yn gyfforddus â'r ddau gamddatganiad nas cywirwyd, gan eu bod yn unigol ac yn gyfunol yn is na'r lefel perthnasedd sydd wedi'i phennu ar gyfer archwilio cyfrifon Cyngor Caerffili, sef £6.6m. Felly, mae hwn yn drothwy y gall Archwilio Cymru ei dderbyn, a bydd yr addasiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud yn Natganiadau Ariannol y flwyddyn nesaf.

Gofynnodd yr Aelod am gadarnhad o farn Archwilio Cymru o ran y balans dyledwyr o £1.5m. Cadarnhaodd Mr Veale fod Archwilio Cymru yn gyfforddus â'r ffigur hwn ac esboniodd fod yr eitemau penodol hyn yn seiliedig ar yr amgylchiadau dan sylw. Yn y pen draw, mae Archwilio Cymru yn fodlon ag ymrwymiad y Cyngor i gynnal archwiliad parhaus o'r balansau hynny ac, felly, rhoddir sylw i'r mater hwn fel rhan o argymhellion Archwilio Cymru a'r gwaith dilynol a gyflwynir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y flwyddyn newydd. Felly, cadarnhaodd Mr Veale fod Archwilio Cymru yn hapus i gymeradwyo Datganiadau Ariannol y Cyngor ar gyfer 2020/21 a atodir i'r adroddiad.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhellion yn adroddiad y Swyddog. Drwy Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar (42 o blaid, 0 yn erbyn a 2 yn ymatal) cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD y dylid gwneud y canlynol:

- (i) Y Cyngor i gael copi o 'Adroddiad Archwilio Cyfrifon' Archwilio Cymru a gwneud sylwadau arno;
- (ii) Cymeradwyo'r Cyfrifon Ariannol a Archwiliwyd ar gyfer 2020/21;
- (iii) Nodi y bydd yr 'Atodiad i'r Adroddiad Archwilio Cyfrifon' yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2022, gan amlinellu argymhellion Archwilio Cymru sy'n deillio o'r archwiliad o Gyfrifon Ariannol y Cyngor ar gyfer 2020/21 ac ymatebion cysylltiedig y rheolwyr.

4. DIWEDDARIAD I REOLIADAU LLYWODRAETH CYMRU I SEFYDLU CYD-BWYLLGORAU CORFFOREDIG A NEWIDIADAU CANLYNIADOL I GYD-BWYLLGOR RHANBARTH PRIFDDINAS CAERDYDD

Cynghorwyd yr Aelodau fod yr eitem hon wedi ei gohirio hyd nes cyfarfod arall o'r Cyngor yn y dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.16 p.m.

Cadarnhawyd bod y cofnodion yn gofnod cywir ac yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau y cytunwyd arnynt ac a gofnodwyd yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2021, cawsant eu llofnodi gan y Maer.

Y MAER